Cyfarfod Cyngor Cymuned Ionawr 16 2020 am 8 o'r gloch yn Festri Tabor
Presennol : Islwyn Jones, Angharad Evans, Fred Jones, Dylan Davies, Lynn Davies (cadeirydd), Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc.

Ymddiheuriad ; Huw Griffith, Margaret Lewis

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd ac arwyddwyd eu bod yn gywir.
Materion yn codi
Llythr/contract o'r fferm wynt edf energy – heb ei dderbyn hyd yn hyn.
Fferm wynt Llety'r Bugail wedi anfon eu cyfraniad arferol ar 1af Tachwedd a fferm wynt edf energy ym mis Rhagfyr.
Ymholiadau'n parhau ynglŷn ag aelod newydd ar y Cyngor.

Gohebiaeth
Pwyllgor Rheoli Datblygu
Gwybodaeth wrth y Cyngor Sir eu bod yn mynd i baentio arwyddion ARAF/SLOW ar yr hewl cyn dod at yr ysgol, o ddau gyfeiriad, pan fydd y tywydd yn caniatáu.
Ymgynghoriad ar gynllun Cydraddoldeb Ceredigion ac ymgynghoriad ar Praesept yr Heddlu – dim sylwadau.
Ymgynghoriad Cynllunio Rhandir Hen (A190899)– dim gwrthwynebiad.
Garddwest Buckingham Palace. Cytunodd y Cadeirydd i'w enw gael ei gynnwys ymhlith y rhai fydd yn cael y cynnig.
Ar ôl ystyried amcangyfrifon cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf cytunwyd i gadw'r praesept yr un fath.
Derbyniwyd rhai ceisiadau am gymorth ariannol a byddir yn eu hystyried yng nghyfarfod mis Chwefror.

Ariannol
Talwyd y Cyngor Sir am oleuadau dros nos £15.40 (Talwyd £52.96 y llynedd)
Awdurdodwyd talu cyflog y clerc erbyn diwedd y mis ac aelodaeth Un Llais Cymru a bill Archwilwyr allanol os derbynnir hwy cyn y cyfarfod nesaf.
Arian yn y banc 31 Rhagfyr - Cyfrif cyfredol £2551.32
Cyfrif cymunedol £29,230.48
Unrhyw Fater Arall
Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes arwydd o unrhyw fath ar dro'r Esgair a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Ffyrdd. Hefyd angen sôn nad yw'r gwaith o roi wyneb newydd ar y ffordd wedi ei gwblhau mor bell â'r fynedfa i'r Fferm Wynt fel yr hysbyswyd.

Dyddiad cyfarfod nesaf Chwefror 20fed